


**YSGOL DAVID HUGHES
PORTHAETHWY**



**ADRODDIAD Y LLYWODRAETHWYR AM
Y FLWYDDYN ACADEMAIDD
2013/2014**

YSGOL DAVID HUGHES PORTHAETHWY



ADRODDIAD Y LLYWODRAETHWYR AM Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2013/2014

Cyflwynir yr adroddiad hwn i rieni'r ysgol. Crynodeb sydd yma o'r modd y cyflawnodd y Llywodraethwyr eu swyddogaethau yn ystod y flwyddyn academaidd **2013/2014**.

Y CORFF LLYWODRAETHU AM 2013/2014

CYNYRCHIOLAETH:	ENW:	HYD AT:
Pennaeth	Mr H Emyr Williams	yn rhinwedd ei swydd
Cynrychiolwyr Rhieni	Mrs Shan Wright Hughes Mrs Anwen Last Mrs Mared Lewis Roberts Mr Eifion Lloyd Watkins Mr William Edward Williams Mrs Catrin Withers	31.08.16 31.08.17 11.12.15 31.08.16 11.12.15 31.08.16
Cynrychiolwyr Athrawon	Mrs Manon Davies Mrs Karen Reed	31.08.16 31.08.16
Cynrychiolydd Staff Cefnogol	Mrs Nicola Parry	31.08.17
Cynrychiolwyr Awdurdod Addysg Leol	Cynghorydd Lewis Davies Cynghorydd Jim Evans Mrs Nia Lloyd Griffiths Cynghorydd Meirion Jones sedd wag	31.05.17 31.05.17 31.08.16 31.05.17
Cynrychiolwyr Cyfetholedig	Mrs Olwen Dennis Williams Parch Harri O Jones Cynghorydd Meirion Jones Dr John Meirion Davies Dr Eryl Wynne Davies Gwyn Morgan Lloyd	31.08.16 31.08.16 31.08.15 31.08.16 31.08.15 31.08.17
Cynrychiolwyr Disgyblion	Huw Tomos Harvey Cara Medi Jones	31.08.14 31.08.14

CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR AM 2014/2015

yw'R Athro Eryl Wynne Davies a gellir cysylltu ag ef drwy'r ysgol.

1. YR YSGOL

Roedd gan Ysgol David Hughes **1103** o ddisgyblion ar ei llyfrau ym mis **Medi 2013**. Rhif mynediad yr ysgol am **2014/2015** yw **224** o ddisgyblion ar gyfer pob blwyddyn ysgol. Ym mis Medi **2014** mae gennym **1098** o ddisgyblion a **81** o athrawon gyda **45** o staff cefnogol.

2. NOD AC AMCANION YR YSGOL

Nod yr ysgol, mewn partneriaeth â disgyblion, rhieni a llywodraethwyr yw creu awyrgylch sy'n caniatáu i'r disgyblion ddatblygu i'w potensial eithaf, ac wynebu'n hyderus ofynion ein cymdeithas fodern ddwyieithog.

1. Ceisio meithrin cymdeithas waraidd sydd yn pwysleisio gwerthoedd moesol a dynol gan roi sylw penodol i oddefgarwch a gofal dros eraill, yn arbennig y rhai lleiaf ffodus mewn bywyd.
2. Datblygu sylfaen o lythrennedd a gwybodaeth fathemategol, wyddonol a thechnegol i alluogi'r disgybl i ddysgu sgiliau hanfodol gwaith a hamdden ar gyfer heddiw a'r cyfnod technolegol a fydd yn ei wynebu yn y dyfodol.
3. Paratoi'r disgybl i wneud cyfraniad llawn i fywyd y gymdeithas y mae'n rhan ohoni. Yn achos Môn, cymdeithas ddwyieithog yw honno, felly, fe ddylid sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i ddod yn ddwyieithog os ydyw am gyrraedd y nod hwn.
4. Dysgu disgybl am gamp a dyheadau dyn yn y celfyddydau, y gwyddorau a chrefydd a'r ymchwil am gymdeithas gyfiawn.
5. Ceisio cynorthwyo'r disgybl i ddatblygu meddwl ymchwilgar, bywiog; i holi a dadlau'n rhesymegol ac yna i ymroi i dasgau penodol.
6. Ceisio cynorthwyo'r disgybl i ddeall sut y mae gwlad yn ennill ac yn cynnal ei safon byw gan roi sylw yn arbennig i bwysigrwydd diwydiant a byd gwaith.
7. Paratoi cwricwlwm sy'n eang, cytbwys, perthnasol a gwahaniaethol.

3. DIWRNOD YSGOL

Rhennir y diwrnod fel a ganlyn:

8.45 - 9.10	Cychwyn y diwrnod Ysgol/Cofrestru
9.10 - 10.00	Gwers 1
10.00 - 10.50	Gwers 2
10.50 - 11.05	Egwyl
11.05 - 11.55	Gwers 3
11.55 - 12.45	Gwers 4
12.45 - 1.40	Cinio
1.40 - 2.30	Gwers 5
2.30 - 3.20	Gwers 6

4. CYFARFODYDD Y LLYWODRAETHWYR

Wrth gyflawni ei ddyletswyddau cyfarfu'r Corff Llywodraethu ar y dyddiadau a ganlyn:

23	Medi 2013
16	Rhagfyr 2013
17	Mawrth 2014
23	Mehefin 2014

23 Medi 2013

Etholwyd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd.

Enwebwyd Llywodraethwr Dynodedig Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Trafodwyd materion a oedd yn codi o'r cofnodion diwethaf ac o amrywiol ohebiaeth.

Cyflwynwyd gwybodaeth ynglŷn ag enillwyr gwobrau ariannol blynyddol i ddisgyblion.

Ystyriwyd canlyniadau'r arholiadau allanol a'r targedau blynyddol.

Trafodwyd blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer 2013/2014.

16 Rhagfyr 2013

Trafodwyd materion a oedd yn codi o'r cofnodion diwethaf.

Derbyniwyd cofnodion yr Is-baneli a mabwysiadwyd y polisiau a argymhellwyd gan yr Is-banel Polisiau.

Derbyniwyd adroddiad y Pennaeth yn nodi digwyddiadau a llwyddiannau'r ysgol.

Cyflwynwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â rhagamcan niferoedd disgyblion a thrafodwyd materion cyllidol.

17 Mawrth 2014

Trafodwyd materion a oedd yn codi o'r cofnodion diwethaf.

Derbyniwyd cofnodion yr Is-baneli, a phenderfynwyd mabwysiadu'r polisiau a argymhellwyd gan yr Is-Banel Polisiau.

Trafodwyd sefydlu Ardal Cynnydd – Y Porth.

Trafodwyd digwyddiadau a llwyddiannau'r tymor.

Mabwysiadwyd y gyllideb am **2014/2015**.

Adolygwyd Cynllun Datblygu'r ysgol ar gyfer 2011-2013.

23 Mehefin 2014

Derbyniwyd cofnodion yr Is-baneli.

Trafodwyd materion a oedd yn codi o'r cofnodion diwethaf ac o amrywiol ohebiaeth.

Derbyniwyd adroddiad gan bob adran ar ei gwaith.

Cafwyd adroddiad gan y Pennaeth am ddigwyddiadau a llwyddiannau.

Penderfynwyd derbyn mantolen diwedd blwyddyn ar gyfer cronfa'r ysgol.

Derbyniwyd cyfrifon diwedd blwyddyn ar gyfer cyllideb **2013/2014**

Trafodwyd blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer 2014/2015.

YMDDYGIAD A DISGYBLAETH – EGWYDDORION CYFFREDINOL

Mae Ysgol David Hughes yn ysgol uwchradd ar gyfer pobl ifanc 11-18 oed. Disgwyliwn felly i gyfeillgarwch, cydweithrediad a synnwyr cyffredin fod yn sail i'r gweithgaredd. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol bydd gofyn i ddisgyblion wneud llawer o benderfyniadau ynglŷn â'u dyfodol. Mae llwyddiant yn yr ysgol, addysg bellach, hyfforddiant neu fyd gwaith yn gofyn am ymroddiad a gwaith caled. Er mwyn ceisio helpu'r disgyblion i gyrraedd y safon ddisgwyliedig gobeithiwn greu'r amodau a'r awyrgylch gywir o fewn yr ysgol.

Dylai pob aelod o'r ysgol ddangos parch tuag at yr aelodau eraill, disgybl tuag at ddisgybl, disgybl tuag at athro, ac aelodau o'r ysgol tuag at ymwelwyr.

Mae pob disgybl yn aelod o grŵp tiwtorial ac mae'r tiwtor dosbarth bob amser yn barod i roi cyngor, helpu gydag ymholiadau neu geisio datrys problemau.

Mae athrawon yn y dosbarth i weithio gyda'r grŵp cyfan. Fe fyddant, wrth gwrs, yn barod i roi sylw unigol yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n bwysig, fodd bynnag, nad yw unigolion difeddwl yn amharu ar y dosbarth.

Os oes gan unrhyw riant sylw i wneud ar y datganiad uchod gofynnir i chi gysylltu â Chadeirydd y Corff Llywodraethu trwy'r ysgol.

Yn ogystal â chyfarfodydd y Corff Llywodraethu llawn mae gan y Llywodraethwyr

5 Is-bwyllgor sef, Adeiladau, Cyllid a Blaenoriaethau, Lles a Phersonél, Polisiau, a Chwricwlwm a

Chymunedol a chyfarfu'r rhain nifer o weithiau yn ystod y flwyddyn. Hefyd, cyfarfu'r Is-banel Penodi ac

Is-banel Disgyblaeth fel bo'r galw.

5. GWYBODAETH I RIENI

Gellir cael manylion am gwricwlwm yr ysgol a'r meysydd llafur gan y Pennaeth.

Cyhoeddir llawlyfr - Gwybodaeth i Rieni - yn flynyddol, sy'n cynnwys gwybodaeth am drefniadaeth a rheolau'r ysgol. Yn ogystal â hyn cynhyrchwyd llawlyfrau i rieni yn ymwneud â:

Mynediad i'r ysgol
Dewisiadau Blwyddyn 10
Mynediad i Flwyddyn 12
Disgyblaeth
Gwaith Cartref
Cyfarwyddyd Gyrfaoedd
Addysg Iechyd
Polisi Iaith

Mae Bwletin Rhieni sy'n cael ei gyhoeddi'n dymhorol yn rhoi'r wybodaeth diweddar.

6. ADEILADAU'R YSGOL

Archwiliodd y Llywodraethwyr adeiladau'r ysgol ar **9 Rhagfyr 2013**.

Cafodd yr addasiadau ganlyn eu gwneud:

- **Gampfa Genethod**
Trowyd hen gawodydd y merched yn Swyddfa Braille.
- **Cefn y Neuadd**
Gosodwyd draen newydd i gymryd gorlif dwr o'r caeau mewn tywydd gwlyb i arbed i'r neuadd gael ei difrodi.
- **WiFi**
Gosodwyd gwifrau newydd i alluogi system WiFi yn yr ysgol.
- **Peintio**
Gwnaed rhywfaint o beintio.
- **Ystafell C4**
Creu ystafell gyfarfod.
- **Tanciau Dwr**
Gwacawyd y tanciau dwr a'u glanhau yn dilyn arolwg Legionella.
- **Ystafell Pennaeth**
Gosodwyd drws newydd, gyda gwyr ynddi a gwneud yr ystafell yn wrthsain.
- **Ystafell Fideo Gynadledda**
Uwchraddio

7. YMDDEOLIADAU A PHENODIADAU STAFF

Staff wedi gadael:

Mrs M Anne Harris	Athrawes Iechyd a Gofal
Mrs Dominique Humphreys	Pennaeth Ieithoedd Modern
Mr Martin Parry	Cymhorthydd Cefnogi Dysgu
Mrs Janet Pritchard	Cymhorthydd Gweinyddol
Mrs Yvonne Roberts	Goruchwylwraig Cinio

Penodwyd y rhai a ganlyn:

Mrs Mary-Louise (Mez) Saywood-Peyrasse	Pennaeth Ieithoedd Modern
Miss Hannah Brett	Athrawes Gwyddoniaeth
Miss Bethan Mair Williams	Athrawes Dyniaethau
Mr Martin Japheth	Athro Technoleg Gwybodaeth
Mr Gareth John Patchett	Athro Addysg Gorfforol
Mrs Evelyn Bennett	Cymhorthydd Cefnogi Dysgu
Ms Helen Abel	Cymhorthydd Cefnogi Dysgu
Mrs Diane Roberts	Cymhorthydd Cefnogi Dysgu
Mr Dion Roberts	Technegydd Gwyddoniaeth

8. CYSWLLT CYMUNEDOL A GWEITHGAREDDAU

- Trefnwyd nifer o ymweliadau addysgol yn ystod y flwyddyn.
- Bu defnydd cymunedol cyson o'r ysgol a'r Ganolfan Hamdden.
- Drwy'r Ffair a Raffl Nadolig y Cyfeillion cyfrannwyd at fywyd cymdeithasol, elusennol a diwylliannol. Aeth elw'r gweithgareddau eleni at brynu adnoddau newydd i'r ysgol.
- Mae'r ysgol yn gweithredu Cynllun Profiad Gwaith a chafodd pob disgybl ym Mlwyddyn 10 a 12 leoliad profiad gwaith ar ddiwedd Tymor yr Haf.
- Cafwyd cymorth yn ystod y flwyddyn gan asiantaethau allanol fel y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu.
- Trefnwyd gweithgareddau ar ôl ysgol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 ysgolion y dalgylch yn ystod Tymor yr Haf.
- Mae disgyblion o'r ysgol yn gwneud gwaith gwirfoddol yn lleol.
- Mae nifer fawr o ddisgyblion wedi bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau lleol tu allan i oriau'r ysgol, ee chwaraeon, eisteddfodau, cyngherddau, ayyb.
- Bu ymdrech i sicrhau cyfathrebu effeithiol gyda rhieni a chynhaliwyd nifer o gyfarfodydd i esbonio polisi a threfn fel a ganlyn:
 - Bwletin Rhieni
 - Cyfarfod rhieni ar gyfer pob blwyddyn ysgol
 - Cyfarfod i drafod mynediad i Flwyddyn 12/Opsiynau 16+
 - Cyfarfod i drafod dewisiadau Blwyddyn 10
 - Cyfarfod i drafod mynediad i golegau
 - Ymwelwyd â holl ysgolion cynradd y dalgylch i drafod trosglwyddo cynradd-uwchradd
 - Cyfarfod gyda rhieni disgyblion Blwyddyn 6 ysgolion cynradd er mwyn gwneud y broses o drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd yn un esmwyth.
 - Cefnogwyd amryw o elusennau yn ystod y flwyddyn.
 - Trefnwyd prosiectau cwricwlaidd gyda diwydiannau lleol.

9. LLWYDDIANNAU'R FLWYDDYN

Hysbysir rhieni yn rheolaidd am lwyddiannau'r ysgol drwy'r Bwletin Rhieni a'r dulliau cyfathrebu arferol ee Papur Menai.

10. GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL YR ADRAN ADDYSG GORFFOROL 2013/2014

Pêl-droed bechgyn

Eto eleni, mae timau o bob grŵp oedran wedi cynrychioli'r ysgol, gyda'r timau dan 12, dan 14, dan 16 a dan 18 wedi cystadlu yng Nghystadleuaeth Eryri. Oherwydd y gwaith a wnaed dros fisoedd yr haf ar y prif gae, medrwyd chwarae gemau adref y tymor hwn. Parhawyd y traddodiad o bob tîm yn cyrraedd camau olaf y gystadleuaeth. Cafodd y tîm dan 12 lwyddiant trwy ennill y mwyafrif o'u gemau ac roedd y tîm yn cynnwys unigolion dawnus. Cafodd y tîm dan 14 rediad da yn y cwpan, gan guro pawb yn eu herbyn yn hawdd. Mae hwn yn grŵp dawnus iawn o unigolion ac mae dyfodol disglair iddo. Ni chafodd y tîm dan 16 y rhediad gorau yn y cwpan y tymor hwn, ond gwnaethant yn dda yn eu gemau cynghrair. Cafodd y tîm dan 18 eu rhediad gorau yn y cwpan ers sawl blwyddyn. Chwaraeodd y tîm bêl-droed deniadol yr holl ffordd i rownd gynderfynol Cwpan Cymru. Mae nifer o chwaraewyr bellach yn chwarae'n rheolaidd i'w timau lleol. Chwaraeodd y grwpiau oedran eraill (dan 13 a dan 15) yn erbyn ysgolion lleol mewn gemau cyfeillgar. Yn ogystal â gemau cwpan a gemau cyfeillgar, hyfforddodd yr holl dimau trwy gydol y tymor. Roedd y nifer o ddisgyblion oedd yn mynychu'r sesiynau hyfforddi yn uchel iawn, pob un yn dangos ymroddiad a brwdfrydedd. Fel Adran hoffem ddiolch i Mr Martin Jones a fu ddigon caredig i ddarparu cit newydd i'r tîm dan 14.

Pêl-droed Genethod

Cofrestrwyd timau ar gyfer Cwpan Eryri yn y 3 grŵp oedran - dan 13, dan 14 a dan 16. Curodd y timau iau eu gemau rownd gyntaf cyn colli yn yr ail rownd, yn anffodus. Aeth y tîm dan 16 ymlaen i'r rownd gynderfynol cyn colli o drwy blewyn i'r rhai a ddaeth yn fuddugol yn y Cwpan. Mae'r nifer o enethod sy'n mynychu'r hyfforddiant wythnosol yn uchel, sy'n dangos eu brwdfrydedd a'u hymroddiad i'r gêm. Dewiswyd 5 o'r genethod i gynrychioli Eryri.

Rygbi

Fel adran rydym yn hapus bod Mr Peter Marshall wedi cael adferiad iechyd a'i fod wedi medru parhau gyda'i gymorth gyda gemau rygbi tuag at ddiwedd y tymor.

Yn ystod tymor yr hydref cynrychiolodd y timau dan 14 ac 16 yr ysgol yng nghynghrair Môn. Roedd perfformiad y ddau dîm yn rhagorol, gyda'r rhai dan 14 yn ennill eu cynghrair nhw wedi colli 1 gêm yn unig ac yn ennill rhai gemau gyda'r sgoriau mwyaf erioed. Cafodd y tîm dan 16 dymor arbennig o dda gan orffen yn ail yn eu cynghrair.

Ar ôl Nadolig cynrychiolodd y timau dan 13 a dan 15 yr ysgol yng nghystadleuaeth y cwpan.

Dan 13 - Dechreuodd y tîm yng Nghwpan Eryri, ond roedd nifer o'r chwaraewyr allweddol ar goll ar gyfer y gêm oherwydd taith sgïo, felly roedd gemau'r tîm yng nghystadleuaeth y plât. Ni ddaeth unrhyw dîm arall yn agos at berfformiad y bechgyn hyn, ac roeddent yn llwyddiannus yn ennill plât mewn rownd derfynol a gynhaliwyd yng Nghlwb Rygbi Caernarfon.

Dan 15- Mae hwn yn grŵp dawnus iawn o unigolion ac eleni cawsant rediad ardderchog yn y cwpan, gan ennill yr holl gemau ar y ffordd i'r rownd derfynol, ac roeddent yn anlwcus i beidio ennill y gêm derfynol.

Dan 18- Chwaraeodd y tîm yng Nghwpan Eryri a chawsant rediad da yn y gystadleuaeth gan ennill tair gêm a cholli yn y rownd gynderfynol o bwynt unigol.

Dan 12- Cynrychiolodd y tîm hwn yr ysgol mewn nifer o gemau Rygbi 7 bob ochr.

Fel adran hoffem ddiolch i Mr Tom Last, a fu'n ddyfarnwr mewn nifer o gemau ysgol yn ystod y tymor.

Criced

Cymerodd y tîm criced dan 14 ran yn nhwrnamaint Criced Eryri Colts eto'r tymor hwn. Hoffem ddiolch i'r MBCC (Mr A.K.Hughes) am ganiatáu i'r ysgol ddefnyddio eu cyfleusterau gwych ar gyfer ein gemau cartref.

Athletau

Cymerodd timau ran mewn dwy Gystadleuaeth Ynys Môn yn Nhreborth.

- Aeth nifer ymlaen i gynrychioli Môn yng nghystadleuaeth Eryri. Yn dilyn hyn detholwyd 6 athletwr i gynrychioli Eryri yn y gystadleuaeth genedlaethol a gynhaliwyd yn Aberhonddu. Gorffennodd tri athletwr mewn safle podiwm yn y gystadleuaeth hon.
- Yn yr ail gystadleuaeth atletau roedd gan yr ysgol dimau yn cynrychioli'r ysgol ym mlwyddyn 7, blwyddyn 8 a blwyddyn 10. Enillodd y ddau dîm blwyddyn 7 eu cystadleuaeth. Enillodd y timau merched blwyddyn 8 a 10 eu cystadlaethau hwy hefyd a mynd ymlaen i gynrychioli Môn yn rownd Eryri. Fodd bynnag cafodd bechgyn blwyddyn 8 gystadleuaeth ragorol gan ennill pob camp yn y rownd leol, yna ennill rownd Eryri yn hawdd, ac wedyn cynrychioli Eryri yn y gystadleuaeth genedlaethol yn Aberhonddu, gan orffen yn bedwerydd teilwng iawn yn y gystadleuaeth.

Hoci

Er gwaethaf diffyg hyfforddiant a chyfleusterau chwarae digonol, cynrychiolodd dau dîm yr ysgol mewn gwahanol gemau cyfeillgar a thwrnameintiau. Enillodd y tîm dan 16 dwrnamaint Ynys Môn/Gwynedd gan chwarae 5 gêm ac ennill pob un. Aethant ymlaen i dwrnamaint Eryri lle, er gwaethaf perfformiadau ardderchog yn erbyn timau oedd â chrym brofiad o chwarae ar feysydd *astro turf* (yn hytrach na tharmac!!), collasant y 3 gêm. Dewiswyd Anna Hume, o flwyddyn 10, i gynrychioli Gogledd Cymru ar lefel dan 16 ac mae wedi ei henwi yn gapten y tîm. Llongyfarchiadau iddi!

Gymnasteg

- Cynhelir clwb Gymnasteg gan Miss Sera Evans unwaith yr wythnos.
- Cystadlodd rhai ym Mhenygroes - cystadleuaeth lefel brofiadol.

Pêl-rwyd

- Timau ar gyfer pob grŵp blwyddyn o 7-11 a hefyd dan 14, dan 16 a dan 18.
- Gemau rhwng tai wedi eu trefnu ar gyfer blwyddyn 7-9
- Chwaraewyd gemau bron pob wythnos yn nhymor 1 a 2 ar gyfer gwahanol grwpiau oedran.
- Daeth y tîm dan 14 yn ail yn nhwrnamaint Môn ac aeth ymlaen i dwrnamaint Eryri lle daeth yn 5ed.
- Enillodd y tîm dan 16 dwrnameintiau Môn ac Eryri ac aeth ymlaen i gynrychioli Eryri yn nhwrnamaint Ysgolion Cymru yng Nglannau Dyfrdwy lle dewiswyd Elan Gilford fel un o'r 20 chwaraewraig orau yn y twrnamaint.
- Daeth y tîm dan 18 yn 2il yn nhwrnamaint Môn.
- Dewiswyd Mollie Davies blwyddyn 11 ac Elan Gilford, Cerys Davies a Manon Stonehewer blwyddyn 10 ar gyfer Carfan dan 16 Eryri.
- Cynrychiolodd tîm dan 14 llynedd Eryri yng nghystadleuaeth 'Gemau Cymru' yng Ngorffennaf gan aros ym mhentref Athletau Pontypridd.

Athletau dan do

- Cynrychiolodd 4 tîm yr ysgol yn Athletau Môn ym Mhlas Arthur.
- Dewiswyd nifer i gynrychioli Gogledd Orllewin Cymru yng nghystadleuaeth Cymru yng Nghwmbrân.
- Enillodd y tîm bechgyn dan 15, oedd â nifer o ddisgyblion YDH, gystadleuaeth Cymru a mynd ymlaen i gystadleuaeth Prydain lle enillodd Alex Burgess fedal aur am y gwibiad 2 lap.

Cwrs Sgïo

- Cafodd llawer o ddisgyblion wersi sgïo yn Llandudno ar y llethr sgïo sych.
- Aeth 41 o ddisgyblion i Montgenevre, Ffrainc yn Ionawr ar gwrs sgïo.

Traws Gwlad

Cystadlodd 6 tîm yng Nghystadleuaeth Môn gyda llawer yn mynd ymlaen i Bencampwriaethau Eryri a rhai i Bencampwriaethau Ysgolion Cymru. Dewiswyd Mollie Davies ar gyfer tîm Cymru ac aeth i gystadlu ym Mherth, yr Alban.

Dawns

Perfformiodd grŵp o enethod mewn "Noson o Ddawns" a gynhaliwyd yn Galeri, Caernarfon. Roedd y noson yn ddathliad o Ddawns a dangoswyd gwaith grwpiau dawnus o hyd a lled Gwynedd a Môn. Cyfarwyddwyd y grwpiau gan Ffion Williams, sy'n hyfforddi yn y rhaglen 5 x 60.

11. GWYLIAU YSGOL I DDISGYBLION AR GYFER 2014/2015

TYMOR	GWYLIAU
HYDREF 2014 1 Medi – 19 Rhagfyr	1 Medi 2014 – Hyfforddiant Mewn Swydd – dim ysgol i'r disgyblion 2 Medi 2014 – Hyfforddiant Mewn Swydd – dim ysgol i'r disgyblion 27 - 31 Hydref 2014 (Hanner Tymor yr Hydref) 22 Rhagfyr 2014 – 2 Ionawr 2015 (Gwyliau'r Nadolig)
GWANWYN 2015 5 Ionawr – 27 Mawrth	16 – 20 Chwefror 2015 (Hanner Tymor y Gwanwyn) 30 Mawrth – 10 Ebrill 2015 (Gwyliau'r Pasg)
HAF 2015 13 Ebrill – 20 Gorffennaf	4 Mai 2015 (Calan Mai) 25 – 29 Mai 2015 (Hanner Tymor y Sulgwyn) 21 Gorffennaf – 31 Awst 2015 (Gwyliau'r Haf)

12. CANLYNIADAU ARHOLIADAU

Mae canlyniadau arholiadau'r ysgol ar gyfer **Haf 2014** yn cael eu cyhoeddi gan y Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ffurflen SSSP, sef **PAPUR A**. Mae'r ffurflenni yn dangos perfformiad yr ysgol o'i gymharu â rhai o'r targedau cenedlaethol.

Mae'r ysgol yn ymfalchïo yn y canlyniadau ardderchog sy'n adlewyrchu gwaith caled a llwyddiant y bartneriaeth allweddol rhwng yr athrawon, y disgyblion a'u rhieni. Byddwn yn anelu at gynnal y safonau uchel hyn yn y dyfodol.

13. CANLYNIADAU CYFNOD ALLWEDDOL 3 A THARGEDAU AR GYFER 2014-2015

Gweler **PAPUR B** sydd yn rhoi gwybodaeth am ganlyniadau'r disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.

14. CYLLIDEB 2013-2014

Gweler y ddogfen ddwyieithog **PAPUR C** am fanylion am gyllideb **2013/2014**.

15. HYNT DISGYBLION

Gweler **PAPUR D**.

16. PRESENOLDEB DISGYBLION

Gweler **PAPUR E**.

Targed Presenoldeb 2014/2015 = 95%

17. ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae polisi'r ysgol yn seiliedig ar hawl pob disgybl i fanteisio ar gwricwlwm eang a chytbwys gan gynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol. Yn Ysgol David Hughes gaiff disgyblion eu hintegreiddio mor llwyr ag y mae'n bosibl i ddosbarthiadau prif ffrwd. Lle y ceir anawsterau neilltuol yn y pynciau craidd, Saesneg, Cymraeg a Mathemateg, gwneir darpariaeth ar gyfer dosbarthiadau llai lle y gall disgyblion dderbyn mwy o sylw unigol er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial yn llawn.

Caiff disgyblion y mae arnynt angen cymorth y tu hwnt i'r mwyafrif o'u cyfoedion eu hystyried yn ddisgyblion ag Anghenion Ychwanegol. Gallent amrywio o ddisgyblion sydd ar ddatganiad Anghenion Ychwanegol yr AALI ac sy'n derbyn cymorth penodol i ddisgyblion sy'n cael anhawster mewn un maes cwricwlwm yn unig. Gallent fod yn anawsterau corfforol, neu emosiynol yn ogystal ag anawsterau academaidd.

Mae'r cydweithrediad agos rhwng Penaethiaid Adrannau a'r Cyd-gysylltydd Anghenion Ychwanegol yn arwain at fonitro cynnydd yn fanwl a lle ceir achos o bryder, gellir gweithredu'n syth.

Anogir cadw cysylltiad agos rhwng rhieni disgyblion Anghenion Ychwanegol a'u hathrawon.

Gellir monitro disgyblion unigol hefyd drwy Nosweithiau Rhieni ac asesiadau dair gwaith y flwyddyn.

Cynigir hefyd gymorth ychwanegol i ddisgyblion y tu allan i'r amserlen ffurfiol. Gweithredir cynllun darllen ar y cyd bob bore yn ystod y cyfnod cofrestru pan fydd disgyblion yr ysgol iau yn ymarfer darllen gydag aelod o Flwyddyn 12. Bu'r cynllun yn llwyddiannus iawn wrth ysgogi darllenwyr gwan neu gyndyn i gynyddu eu gallu a'u mwynhad wrth ddarllen. Yn ystod pedwar amser cinio'r wythnos cynhelir clybiau a grwpiau cymorth amrywiol sy'n cynnig cynhaliaeth ychwanegol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae Clybiau megis y Clwb Gwaith Cartref a'r Grŵp Cynnal Dyslecsia wedi dod yn boblogaidd ymhlith disgyblion sydd erbyn hyn yn eu mynychu'n wirfoddol. Mae disgyblion ag anghenion ychwanegol yn ymuno'n llawn yn holl weithgareddau diwylliannol a chymdeithasol yr ysgol ac anogir hwy i gymryd rhan gyflawn ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol a chael budd o wneud hynny.

18. DISGYBLION ANABL

Mae Ysgol David Hughes yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Addysg a'r Asiantaethau perthnasol i sicrhau nad yw disgyblion anabl yn cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill.

19. GWEITHREDU AC ADOLYGU STRATEGAETHAU'R YSGOL

Mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Ysgol sy'n cynnwys blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r cyswllt gyda'r gyllideb yn holl bwysig ac mae nifer o'r strategaethau datblygol wedi eu costio'n fanwl.

Mae crynodeb o'r blaenoriaethau ar gael yn yr ysgol.

20. Y DEFNYDD O'R IAITH GYMRAEG YN YR YSGOL

Yn Ysgol David Hughes yn ysgol uwchradd ddwyieithog Categori 2B, sydd yn golygu, addysgir o leiaf 80% o'r pynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

Y cyd-destun ieithyddol fydd yn pennu iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y naill iaith a'r llall i gyfathrebu â'r disgyblion a hefyd yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Gymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rheini yn y naill iaith a'r llall.

Ar gyfer disgyblion sy'n dilyn y nifer uchaf posibl o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, byddent yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny yn CA3 a CA4 ac y byddent yn gallu symud ymlaen yn hawdd i ddarpariaeth ôl 16 drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau y maent wedi eu dewis.

Mae'r ysgol yn dilyn Polisi Iaith Ysgolion Ynys Môn, a gafodd ei ffurfioli yn 1998, a'i phrif amcan yw datblygu gallu disgyblion a myfyrwyr y sir i fod yn hyderus ddwyieithog.

Ei amcan yw sicrhau bod pob disgybl yn defnyddio'r ddwy iaith yn gyfrwng dysgu i amrywiol raddau yn unol â gallu ieithyddol pob unigolyn, er mwyn sicrhau parhad addysg ddwyieithog ar ôl y cynradd.

21. CYFARFOD GYDA CHORFF LLYWODRAETHU'R YSGOL

Yn dilyn newid yn y drefn pan ddaeth Deddf Safonau a Threfnidiaeth Cymru 2013 i rym, nid yw'n orfodol i gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni mwyach.

Yn ystod 2013-2014, ni chyflwynwyd deiseb i gynnal cyfarfod, felly ni chafwyd un.

22. Y CORFF LLYWODRAETHU O 1 MEDI 2014

Mae'r Corff Llywodraethu o 1 Medi 2014 yn unol â'r rhestr isod.

Cynhelir yr etholiad nesaf ar gyfer rhieni-lywodraethwyr pan fydd cyfnodau'r aelodau presennol yn dod i ben.

CYNNRYCHOLAETH:	ENW:	HYD AT:
Pennaeth	Mr H Emyr Williams	yn rhinwedd ei swydd
Cynrychiolwyr Rhieni	Mrs Shan Wright Hughes Mrs Anwen Last Mrs Mared Lewis Roberts Mr Eifion Lloyd Watkins Mr William Edward Williams Mrs Catrin Withers	31.08.16 31.08.17 11.12.15 31.08.16 11.12.15 31.08.16
Cynrychiolwyr Athrawon	Mrs Manon Davies Mrs Karen Reed	31.08.16 31.08.16
Cynrychiolydd Staff Cefnogol	Mrs Nicola Parry	31.08.17
Cynrychiolwyr Awdurdod Addysg Leol	Cynghorydd Lewis Davies Cynghorydd Jim Evans Mrs Nia Lloyd Griffiths Cynghorydd Carwyn Elias Jones Cynghorydd Meirion Jones	31.05.17 31.05.17 31.08.16 31.05.17 31.05.17
Cynrychiolwyr Cyfetholedig	Yr Athro Eryl Wynn Davies Dr John Meirion Davies Mr Gwyn Morgan Lloyd Mrs Olwen Dennis Williams sedd wag	31.08.15 31.08.16 31.08.17 31.08.16
Cynrychiolwyr Disgyblion	Megan Haf Roberts Elin Rhiannon Steele	31.08.15 31.08.15

23. POLISIÂU WEDI'U MABWYSIADU

Mabwysiadwyd y polisiâu canlynol yn ystod y flwyddyn academaidd 2013-2014 gan y Llywodraethwyr:-

Polisi Gwrth-fwlio

Polisi Hyrwyddo Ymddygiad Da

Polisi Cyflog (Tâl Ysgol Gyfan – Medi 2013)

Polisi Rheoli Perfformiad

Polisi Bws Mini

Polisi Preifatrwydd (Diogelu Data)

Polisi caniatâd i absenoldeb – athrawon

Polisi caniatâd i absenoldeb – staff cefnogi

Polisi Amddiffyn Plant

Polisi Camddefnyddio Sylweddau

Adroddiad Blynyddol i'r Corff Llywodraethu ar Ddiogelu Plant (CSYM)

24. CYFLEUSTERAU TOILEDAU

Mae'r ysgol wedi buddsoddi'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac wedi adnewyddu 4 bloc toiled. Mae'r toiledau yma yn gwbl breifat gyda drws yn ymestyn i'r nenfwd ar bob ciwbicl. Rhoddwyd camerâu CCTV i gadw golwg ar y rhan agored wrth y sinciau ym mhob toiled i sicrhau nad oes neb yn camymddwyn tuag ddisgyblion eraill nag yn difrodi'r eiddo. Cedwir y toiledau yn lân gyda chyflenwad digonol o sebon a phapur yn ddyddiol drwy gytundeb glanhau Cyngor Sir Ynys Môn.


25. HYRWYDDO YFED A BWYTA'N IACH GAN DDISGYBLION

Mae grŵp SNAG yr ysgol (pwyllgor o ddisgyblion yr ysgol) wedi ei sefydlu i drafod materion sydd yn ymwneud a hybu bwyta ac yfed yn iach yn yr ysgol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r grŵp, sydd yn cynnwys disgyblion o flwyddyn 7 i 13, wedi cyfarfod yn rheolaidd gyda chynrychiolwyr o Caterlink. Dyma flas o rhai o'u gwaith. Mae'r grŵp wedi:

- gwneud cyflwyniadau ymhob gwasanaeth blwyddyn yn egluro eu rôl yn cynrychioli disgyblion yr ysgol ar faterion yn ymwneud a hybu bwyta ac yfed yn iach.
- trefnu cystadleuaeth creu bar muesli iach a gafodd ei baratoi yn y gegin ac wedyn ei werthu yn y ffreutur i'r disgyblion
- monitro'r newid i'r drefn Cashless Catering
- monitro'r ysbwriel yn ffreutur a phenodi disgyblion i atgoffa disgyblion i roi eu sbwriel yn y biniau.

Eleni mae'r ysgol yn gweithio tuag at ennill y Wobr Ansawdd Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Iach ac yn ddiolchgar iawn i'r gefnogaeth gan Mrs Bethan Dixon o Gyngor Sir Ynys Môn wrth gasglu'r dystiolaeth.

YSGOL DAVID HUGHES MENAI BRIDGE



THE GOVERNORS' REPORT FOR THE ACADEMIC YEAR 2013/2014

This report is presented to parents. It is a summary of how the Governors fulfilled their duties during the 2013/2014 academic year.

THE GOVERNING BODY FOR 2013/2014

REPRESENTATIVE	NAME	EFFECTIVE UNTIL:
Headteacher	Mr H Emyr Williams	in his capacity as Headteacher
Parents' Representatives	Mrs Shan Wright Hughes	31.08.16
	Mrs Anwen Last	31.08.17
	Mrs Mared Lewis Roberts	11.12.15
	Mr Eifion Lloyd Watkins	31.08.16
	Mr William Edward Williams	11.12.15
	Mrs Catrin Withers	31.08.16
Teachers' Representatives	Mrs Manon Davies	31.08.16
	Mrs Karen Reed	31.08.16
Support Staff Representative	Mrs Nicola Parry	31.08.17
Local Education Authority Representatives	Councillor Lewis Davies	31.05.17
	Councillor Jim Evans	31.05.17
	Mrs Nia Lloyd Griffiths	31.08.16
	Councillor Meirion Jones	31.05.17
	empty seat	
Co-opted Members	Mrs Olwen Dennis Williams	31.08.16
	Parch Harri O Jones	31.08.16
	Councillor Meirion Jones	31.08.15
	Dr John Meirion Davies	31.08.16
	Dr Eryl Wynne Davies	31.08.15
	Gwyn Morgan Lloyd	31.08.17
Pupils' Representatives	Huw Tomos Harvey	31.08.14
	Cara Medi Jones	31.08.14

THE CHAIRMAN OF THE GOVERNORS FOR 2014/2015

is Professor Eryl Wynne Davies and he may be contacted through the school.

1. THE SCHOOL

Ysgol David Hughes had **1103** pupils on the school roll in September **2013**. The prescribed admission number for **2014/2015** is **224** pupils for each school year group. In September **2014** we have **1098** pupils and **81** teachers and **45** support staff.

2. THE SCHOOL'S AIM AND OBJECTIVES

The school aims, in partnership with pupils, parents and governors to create an atmosphere that will allow all pupils to develop to their full potential and, in doing so, meet the needs and demands of our changing bilingual society.

